dpia Displaced People *in* Action
Alltudion ar Waith

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Third sector action on climate change – Case study

Displaced People in Action

1. Why are you doing something about climate change?

Climate change is one of the biggest challenges facing the world today and we, at DPIA, are determined to play our part in tackling it. DPIA attaches the greatest importance to the values and ethos enshrined in the principles of sustainable development and acknowledges that action to combat climate change is necessary. DPIA is committed to working with the statutory and voluntary sectors, business partners, communities and its service users in Wales to mitigate the threat of climate change. DPIA fully accepts its obligations in delivering services to its service users within the framework of sustainable development as far as is reasonably possible, and has taken a series of positive measures and actions to contribute to the climate change agenda.

2. What steps have you taken in your organisation to deal with your environmental impact in the following areas?

The agenda and actions for sustainability and climate change are being led by DPIA's designated Green Ambassador (Minkesh Sood) and a cross-project Green Team (Louise Kalicinski, Ginger Wiegand & Minkesh). The team leader formulated a draft Sustainable Development and Climate Change policy in March last year which was finalised after discussions in both team and staff meetings. This policy was formally adopted after it was approved by the DPIA Board of Directors in August 2010.

DPIA has taken a series of measures to reduce its Carbon footprint. These measures include:

Energy

- reduction in energy usage, e.g. one single networked printer as compared to seven desktop printers and adopting SWITCH OFF;
- DPIA had previously been constrained by a lack of control and monitoring over its energy usage (as the office rent was inclusive of all service charges). In November 2010, DPIA moved into new premises where Staff now had full control of how much energy they used and were able to monitor it and reduce the consumption in its head office in Cardiff.

Transport

- adoption of car-sharing, use of public transport, use of bicycles for local travel;
- encouraging flexible working and starting hot-desking at our Swansea, Newport and Wrexham offices;
- using venues closer to public transport links and with good environmental credentials for our events.

Procurement

- procuring services from vendors who minimise their own carbon footprint, e.g. avoiding caterers using disposable plastic trays, plates and cutlery for our events;
- preferring locally sourced food options for events and

Recycling

- active recycling of office waste;
- reduction in consumable material in its day to day use, meetings, events and trips (e.g. paperless meetings with no printing of minutes, agenda for staff/team meetings, in-house printing of flyers/leaflets as per need and not bulk printing, encouraging emailed applications for its jobs and volunteering positions, duplex printing etc);

Case study 1: Flexible Working

Minkesh manages the projects on training, volunteering and employment in DPIA. He leads a team comprising 2 Caseworkers (Natasha and Melanie) and a Support Officer (Omar). The caseload was allocated in such a way so that:

- Omar and Melanie who live in and around Newport took on most of the case referrals there. Based on caseload, Omar and Melanie were allowed to work for three and two days in Newport respectively. They travelled straight to their rented hot-desks in Newport to deliver services to clients. Omar, located closest, also travelled once every fortnight to Wrexham for his appointments using public transport.
- Minkesh (living in Swansea) and Natasha (living in Cardigan) took on the responsibility for service provision in both Swansea and Cardiff. Natasha is allowed to work from home for one day a week when she completes all the administration work related to case load.

Sian (Chief Officer) and Louise (Children and Young Persons Worker) both live in Bridgend and they car-share four times a week to Cardiff.

The abovementioned arrangements avoid 832 miles of car journeys every week which amount to 36608 miles annually after adjusting for leave and holidays. This prevents 10.79 tonnes of CO2 from being released into the atmosphere which will otherwise need nearly 54 trees to offset it.

This also results in significant saving in working times for employees as well as savings in mileage payments to the organisation. Amounts have been calculated using a carbon calculator available at http://www.carbonify.com/carbon-calculator.htm

3. How do you think climate change will affect your beneficiaries/client group and what plans do you have to adapt your services to address this?

DPIA supports refugees and those seeking sanctuary in their efforts to participate actively and meaningfully in Welsh community life through a range of services (around education, training, volunteering and employment; capacity building of Refugee Community Organisations, recreational opportunities for families, children and young people), advocacy, policy and campaign work at all levels.

DPIA is currently working on developing a partnership pilot project with Cardiff Council which will be aimed at supporting refugees and asylum seekers in using the energy systems in their homes effectively and efficiently. Often, when this group arrives in this country, energy systems in houses are new to them which can lead to wastage – such as leaving heating on all the time or sometime families living in cold temperatures because they have not fully understood the use of the timer function. The support to help them understand the use of technology will enable them to reduce their costs as well as reducing energy use in their homes.

4. How aware are your client group of potential climate change impacts?

DPIA's client group comprising individuals and families are forced to leave their homelands due to persecution but there is a likelihood that future refugees might be those who are forced to leave their impoverished native land resources due to climate change and the impact that it will have on their livelihoods. DPIA has taken positive action with its client group to increase awareness of the adverse impacts that climate change and unsustainable development can have on individuals and the resources that they rely upon for their livelihoods. The following case study will illustrate DPIA's efforts.

Case Study 2: Litter Picking on Merthyr Mawr Sand Dunes

DPIA's Children and Young Persons Project worked with Local Authorities and other groups such as Keep Wales Tidy, Bridgend Local Authority, Vale of Glamorgan Council, Down to Earth Project, Folly Farm, St Fagan's, Gower Heritage Centre, Taff Valley and Activity Centre and many more organisations in order to set up a series of youth inclusion projects and initiatives to enhance environmental responsiveness for young people seeking asylum and/or young refugees across Swansea and Cardiff.

Over 60 volunteers were involved a major clean up along the river bank and beach front at Merthyr Mawr Sand Dunes as part of the contribution to Tidy Wales Week Campaign (sponsored by Keep Wales Tidy). Over two hundred bags of waste were removed from the area in one day. The project took a group of young people to work on the beach front where a great deal of plastic debris is regularly discarded, ruining an area of great natural beauty. The Countryside Council for Wales, who are responsible for the general upkeep of the Sand Dunes, provided a quad bike, trailer and driver to remove the bags from the remote site. Bridgend Local Authority and the Vale of Glamorgan Council joined forces in a cross border operation to dispose of the collected waste. As part of the event our group attended a lecture on the importance of waste disposal and waste management and after receiving training on use of the equipment, they travelled to the site requiring the clean up. DPIA's group of volunteers worked very hard in the litter picking activity and collecting over 30 bags during the afternoon. A greater awareness towards environmental concerns were highlighted by all who took part as it was agreed to continue the work as part of everyday life.

Another DPIA young persons' group participated and had hands-on experience of mixing methods of traditional eco-building techniques with the most sophisticated technological advances in renewable energy generation. The group contributed by building a dry-stone wall and making walking sticks from tree branches, and then used wood-burning techniques to create designs on these sticks.

5. Where are the major barriers to your organisation and client group being able to fully adapt?

DPIA was fortunate that its employees understood the implications of climate change and changed their working styles and habits and quickly adopted recycling and energy saving measures in their day to day working. DPIA, like many other third sector organisations, is currently faced with a challenging situation to survive through the current economic climate. The current funding crunch will make it difficult to fulfil the mandate and achieve positive outcomes including those related to climate change. Due to the conclusion of various projects and other funding cuts, a majority of DPIA staff are coming to end of their contracts. Very soon, DPIA will be left with a few core staff members. Despite this DPIA's strong commitment to sustainable development and climate change issues will continue to remain at the centre of its planning and operations irrespective of what ever the funding scenario is in future.

6. Other information/top tips

DPIA's client group of refugees and asylum seekers is one of the most disadvantaged groups in the UK. Clients have often undergone trauma and stress of having to flee their homelands and having to undergo the asylum process while they try to rebuild their lives in completely new settings in Wales. As a result, many times, they have more pressing issues on hand to deal with and are therefore, not able to fully understand the climate change issues and its implications, or to take the lead and participate in activities aimed at mitigating the impacts.

For further information contact:
Dr Minkesh Sood, minkeshdpiawales@yahoo.co.uk

WCVA, Baltic House, Mount Stuart Square, Cardiff, CF10 5FH. Registered charity number 218093/Company Limited by Guarantee 425299/Registered in Wales. May 2011. Designed at Design Stage www.designstage.co.uk

dpia Displaced People *in* Action
Alltudion ar Waith

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Y trydydd sector yn gweithredu ar newid yn yr hinsawdd – Astudiaeth achos

Alltudion ar Waith

1. Pam ydych chi'n gwneud rhywbeth ynghylch newid yn yr hinsawdd?

Newid yn yr hinsawdd yw un o'r sialensiau mwyaf sy'n wynebu'r byd heddiw ac rydym ni yma yn Alltudion ar Waith, yn benderfynol o wneud ein rhan gyda mynd i'r afael â hynny. Mae Alltudion ar Waith yn rhoi pwyslais mawr ar y gwerthoedd a'r ethos a ymgorfforir mewn egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn cydnabod bod angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae Alltudion ar Waith wedi ymrwymo i weithio gyda'r sectorau statudol a gwirfoddol, partneriaid busnes, cymunedau a'u defnyddwyr gwasanaeth yng Nghymru i liniaru'r bygythiad o newid yn yr hinsawdd. Mae Alltudion ar Waith yn derbyn ei rhwymedigaethau o ran cyflwyno gwasanaethau i'w defnyddwyr gwasanaeth o fewn fframwaith datblygu cynaliadwy cyn belled ag sy'n rhesymol bosibl, ac mae wedi dilyn cyfres o fesurau a chamau cadarnhaol i gyfrannu tuag at yr agenda newid yn yr hinsawdd.

2. Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd yn eich mudiad i fynd i'r afael â'ch effaith amgylcheddol yn y meysydd a ganlyn?

Llysgennad Gwyrdd (Minkesh Sood) Alltudion ar Waith sy'n arwain yr agenda a'r camau gweithredu ar gyfer cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd yn ogystal â Thîm Gwyrdd traws-brosiect (Louise Kalicinski, Ginger Wiegand a Minkesh). Lluniodd yr arweinydd tîm bolisi drafft ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Newid yn yr Hinsawdd ym mis Mawrth y llynedd, a gwblhawyd yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfodydd tîm a staff.

Mabwysiadwyd y polisi hwn yn ffurfiol ar ôl i Fwrdd Cyfarwyddwyr Alltudion ar Waith ei gymeradwyo ym mis Awst 2010.

Mae Alltudion ar Waith wedi dilyn cyfres o fesurau i leihau ei hôl-troed Carbon. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

Ynni

- lleihau faint o ynni a ddefnyddir, e.e. un peiriant argraffu ar rwydwaith o gymharu â 7 peiriant argraffu bwrdd gwaith a mabwysiadu'r feddalwedd SWITCH OFF;
- roedd Alltudion ar Waith wedi'i chyfyngu yn y gorffennol oherwydd diffyg monitro a rheoli o ran ynni (roedd rhent y swyddfa'n cynnwys yr holl daliadau gwasanaeth). Ym mis Tachwedd 2010, symudodd Alltudion ar Waith i eiddo newydd lle'r oedd gan Staff reolaeth lawn dros faint o ynni a ddefnyddiwyd ganddynt ac roeddynt yn gallu ei fonitro a lleihau'r defnydd yn y pencadlys yng Nghaerdydd.

Trafnidiaeth

- mabwysiadu cynllun rhannu car, defnyddio cludiant cyhoeddus, defnyddio beics i deithio'n lleol;
- annog gweithio'n hyblyg a dechrau system o weithio wrth sawl gweithfan yn ein swyddfeydd yn Abertawe, Casnewydd a Wrecsam;
- defnyddio lleoliadau sy'n nes at gysylltiadau cludiant cyhoeddus ac sydd â nodweddion amgylcheddol da ar gyfer ein digwyddiadau.

Caffael

- prynu gwasanaethau gan werthwyr sy'n lleihau eu hôl-troed carbon eu hunain, e.e. osgoi arlwywyr sy'n defnyddio hambyrddau, platiau a chyllyll a ffyrc plastig ar gyfer ein digwyddiadau;
- dewis bwyd lleol ar gyfer digwyddiadau; ac

Ailgylchu

- ailgylchu gwastraff swyddfa;
- lleihau deunyddiau traul o ddydd i ddydd, mewn cyfarfodydd, digwyddiadau a theithiau (e.e. cyfarfodydd heb bapurau a pheidio ag argraffu cofnodion, agenda ar gyfer cyfarfodydd tîm/staff, argraffu taflenni yn fewnol yn ôl yr angen, dim argraffu swmp, annog ceisiadau am swyddi a gwaith gwirfoddoli yn y mudiad drwy e-bost, argraffu dwplecs, ac ati);

Astudiaeth Achos 1: Gweithio Hyblyg

Minkesh sy'n rheoli'r prosiectau hyfforddi, gwirfoddoli a chyflogaeth yn Alltudion ar Waith. Mae'n arwain tîm sy'n cynnwys 2 Weithiwr Achos (Natasha a Melanie) a Swyddog Cymorth (Omar). Dyrannwyd y baich achosion yn y fath fodd fel bod:

- Omar a Melanie, sy'n byw yng Nghasnewydd ac yng nghyffiniau Casnewydd yn cael y rhan fwyaf o'r achosion yno. Ar sail baich achosion, roedd Omar a Melanie yn cael gweithio tri diwrnod a dau ddiwrnod yng Nghasnewydd yn y drefn honno. Roeddent yn teithio'n syth i'w desgiau poeth ar rent yng Nghasnewydd i ddarparu gwasanaethau i gleientiaid. Roedd Omar, a oedd agosaf, hefyd yn teithio i Wrecsam ar gyfer ei apwyntiadau unwaith bob pythefnos, gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus.
- Cymerodd Minkesh (sy'n byw yn Abertawe) a Natasha (sy'n byw yn Aberteifi) y cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaeth yn Abertawe a Chaerdydd. Mae Natasha yn cael gweithio o'i chartref un diwrnod yr wythnos pan fydd yn cwblhau'r holl waith gweinyddol sy'n ymwneud â'i baich gwaith.

Mae Sian (Prif Swyddog) a Louise (Gweithiwr Plant a Phobl Ifanc) ill dwy yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac maent yn rhannu car i Gaerdydd bedair gwaith yr wythnos.

Golyga'r trefniadau uchod ein bod yn arbed 832 milltir mewn car bob wythnos, sy'n dod i gyfanswm o 36608 milltir yn flynyddol ar ôl addasu'r ffigwr ar gyfer absenoldeb a gwyliau.

Mae hyn yn atal 10.79 tunnell o CO_2 rhag cael ei ryddhau i'r atmosffer. Byddai angen bron i 54 coeden i wrthbwyso hyn fel arall. Mae hyn hefyd yn arwain at arbedion sylweddol o ran amserau gweithio ar gyfer y gweithwyr yn ogystal ag arbedion o ran taliadau costau teithio i'r mudiad. Cyfrifwyd y symiau hyn drwy ddefnyddio'r carboniadur sydd ar gael yn http://www.carbonify.com/carbon-calculator.htm

3. Sut ydych chi'n credu y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar eich buddiolwyr/grŵp cleient a pha gynlluniau sydd gennych chi i addasu eich gwasanaethau i fynd i'r afael â hyn?

Mae Alltudion ar Waith yn cefnogi ffoaduriaid a'r rheini sy'n ceisio lloches gyda'u hymdrechion i gymryd rhan frwd ac ystyrlon ym mywyd cymunedol Cymru drwy amrywiaeth o wasanaethau (o amgylch addysg, hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth, datblygu potensial Mudiadau Cymunedol i Ffoaduriaid, cyfleoedd hamdden i deuluoedd, plant a phobl ifanc, eiriolaeth, polisi a gwaith ymgyrchu ar bob lefel).

Mae Alltudion ar Waith ar hyn o bryd yn gweithio ar ddatblygu prosiect peilot mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd, a chaiff ei anelu tuag at gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches i ddefnyddio'r systemau ynni yn eu cartrefi mewn modd effeithiol ac effeithlon. Yn aml, pan fydd y grŵp hwn yn cyrraedd y wlad hon, bydd systemau ynni mewn cartrefi yn rhywbeth newydd iddynt, a gall hyn arwain at wastraffu – er enghraifft, gadael y gwres ymlaen drwy'r amser, neu weithiau gall teuluoedd fyw mewn tymereddau oer drwy'r amser am nad ydynt wedi deall yn iawn sut i ddefnyddio'r amserydd. Bydd y cymorth i'w helpu i ddeall sut i ddefnyddio'r dechnoleg yn eu galluogi i leihau eu costau yn ogystal â lleihau faint o ynni a ddefnyddir ganddynt yn eu cartrefi.

4. Pa mor ymwybodol yw eich grŵp cleient o effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd?

Mae grŵp cleient Alltudion ar Waith yn cynnwys unigolion a theuluoedd sydd wedi cael eu gorfodi i adael eu mamwlad oherwydd erledigaeth, ond mae'n debyg y bydd ffoaduriaid y dyfodol yn cael eu gorfodi i adael eu gwledydd cynhenid tlawd oherwydd newid yn yr hinsawdd a'r effaith a gaiff hyn ar eu bywoliaeth. Mae Alltudion ar Waith wedi cymryd camau cadarnhaol gyda'i grŵp cleient i godi ymwybyddiaeth am yr effeithiau niweidiol y gall y newid yn yr hinsawdd a datblygiadau anghynaliadwy eu cael ar unigolion a'r adnoddau y

maent yn dibynnu arnynt am eu bywoliaeth. Bydd yr astudiaeth achos a ganlyn yn egluro ymdrechion Alltudion ar Waith:

Astudiaeth Achos 2: Casglu Sbwriel ar Dwyni Tywod Merthyr Mawr

Gweithiodd Prosiect Plant a Phobl Ifanc Alltudion ar Waith gydag Awdurdodau Lleol a grwpiau eraill fel Cadwch Gymru'n Daclus, Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bro Morgannwg, Prosiect Down to Earth, Folly Farm, Sain Ffagan, Canolfan Treftadaeth Gwyr, Taff Valley Activity Centre a nifer o fudiadau eraill er mwyn sefydlu cyfres o brosiectau cynhwysiant ieuenctid i wella ymateb amgylcheddol pobl ifanc sy'n ceisio lloches a/neu ffoaduriaid ifanc yn Abertawe a Chaerdydd.

Bu dros 60 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn ymgyrch fawr i lanhau glan yr afon a'r traeth yn Nhwyni Tywod Merthyr Mawr fel rhan o'r cyfraniad i Ymgyrch Wythnos Cadw Cymru'n Daclus (a noddwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus). Aethpwyd â dros ddau gant o fagiau sbwriel o'r ardal mewn diwrnod. Aeth y prosiect â grŵp o bobl ifanc i weithio ar y traeth, lle caiff llawer o falurion plastig eu taflu'n rheolaidd, sy'n difetha ardal o harddwch naturiol hynod. Darparodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r Twyni Tywod yn gyffredinol, feic cwad, trelar a gyrrwr i symud y bagiau o'r safle anghysbell. Daeth Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bro Morgannwg at ei gilydd mewn ymgyrch trawsffiniol i waredu'r gwastraff a gasglwyd. Fel rhan o'r digwyddiad, aeth ein grŵp i ddarlith ynghylch pwysigrwydd gwaredu gwastraff a rheoli gwastraff, ac ar ôl cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r offer, aethant i safle a oedd angen ei lanhau. Gweithiodd grŵp o wirfoddolwyr Alltudion ar Waith yn galed iawn yn casglu sbwriel, gan gasglu dros 30 bag yn ystod y prynhawn. Roedd yn amlwg bod gan bawb a fu'n cymryd rhan well ymwybyddiaeth o bryderon amgylcheddol oherwydd eu bod wedi cytuno i barhau gyda'r gwaith o ddydd i ddydd.

Cafodd grŵp arall o bobl ifanc Alltudion ar Waith brofiad ymarferol o gymysgu technegau eco-adeiladu traddodiadol gyda'r datblygiadau technolegol mwyaf soffistigedig mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Cyfrannodd y grŵp drwy adeiladu wal gerrig a gwneud ffyn cerdded o ganghennau coed, ac yna defnyddio technegau llosgi coed i greu dyluniadau ar y ffyn hyn.

5. Ym mhle y mae'r rhwystrau mwyaf i'ch mudiad a'ch grŵp cleient rhag gallu addasu'n llwyr?

Roedd Alltudion ar Waith yn ffodus bod ei gweithwyr yn deall goblygiadau newid yn yr hinsawdd gan newid eu dulliau o weithio ac arferion a mabwysiadu mesurau ailgylchu ac arbed ynni yn fuan iawn yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Fel nifer o fudiadau eraill yn y trydydd sector, ar hyn o bryd mae Alltudion ar Waith yn wynebu sefyllfa heriol i ddal ati yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Bydd y wasgfa ariannol bresennol yn ei gwneud yn anodd cwblhau'r mandad a chyflawni canlyniadau cadarnhaol gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Mae'r mwyafrif o staff Alltudion ar Waith yn dynesu at ddiwedd eu cytundebau o ganlyniad i gwblhau amrywiol brosiectau a thoriadau ariannol eraill. Yn fuan iawn, dim ond ychydig o aelodau staff craidd fydd ar ôl yn Alltudion ar Waith. Er gwaethaf hyn, bydd ymrwymiad cryf Alltudion ar Waith i faterion datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd yn parhau i fod yn ganolog i'w gwaith cynllunio a'i gweithrediadau, beth bynnag fo'r sefyllfa ariannu yn y dyfodol.

6. Gwybodaeth arall/gair i gall

Grŵp cleient Alltudion ar Waith, sef ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yw un o'r grwpiau mwyaf difreintiedig yn y DU. Yn aml iawn, mae cleientiaid wedi dioddef trawma a straen o orfod ffoi o'u mamwlad a gorfod mynd drwy'r broses lloches wrth iddynt geisio ailadeiladu eu bywydau mewn sefyllfaoedd cwbl newydd yng Nghymru. O ganlyniad, yn aml iawn mae ganddynt broblemau pwysicach i feddwl amdanynt, felly nid ydynt yn gallu llwyr ddeall materion newid yn yr hinsawdd a'r goblygiadau, na chymryd yr awenau a chymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at liniaru'r effeithiau.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Dr Minkesh Sood, minkeshdpiawales@yahoo.co.uk

WCVA, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH. Rhif cofrestru'r elusen 218093/Cwmni Cyfyngedig dan Warant 425299/Cofrestrwyd yng Nghymru. Mai 2011. Dyluniwyd yn Design Stage www.designstage.co.uk